Estyn

Mehefin 2021



# Gwaith yngysylltu

## Diweddariad ar y sector nas gynhelir

## Tymor yr haf 2021

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r canfyddiadau o alwadau ffôn ymgysylltu a wnaed â 161 o leoliadau nas cynhelir rhwng canol mis Chwefror 2021 a mis Mai 2021, ac ymweliadau ag 8 o leoliadau yn ystod tymor yr haf. Mae'r adroddiad wedi'i seilio ar y wybodaeth a drafodwyd yn ystod galwadau ffôn, ac yn ystod ymweliadau gydag arweinwyr a staff lleoliadau. Mae'r adroddiad hwn yn adeiladu ar y wybodaeth a gyflwynwyd gennym yn y Diweddariad ar y sector nas cynhelir – gwanwyn 2021. Y ffocws ar gyfer pob trafodaeth oedd lles plant a staff, a sut roedd lleoliadau yn cefnogi dysgu ac yn ailsefydlu darpariaeth yn dilyn y cyfnod clo, ac arweinyddiaeth a rheolaeth trwy gydol y pandemig. Mae cyfrannau'n ymwneud â'r sampl o leoliadau y cysylltom â nhw yn ystod y cyfnod adrodd hwn.

**Mae'r adroddiad hwn ar gael yn Saesneg hefyd.**

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| **Lles** | **7** |
| Lles plant | 7 |
| Lles staff | 7 |
| Cymorth ar gyfer dysgwyr bregus | 8 |
| Diogelu | 9 |
| **Ailsefydlu darpariaeth** | **9** |
| Ailagor a phresenoldeb | 9 |
| Gweithgareddau plant | 11 |
| Cymorth allanol | 12 |
| Lleoliadau cyfrwng Cymraeg | 12 |
| Cyfathrebu | 13 |
| Trefniadau cofleidiol | 13 |
| **Arweinyddiaeth** | **14** |
| Dysgu proffesiynol | 16 |










# Prif ganfyddiadau

## Lles plant a staff

**Dywedodd y rhan fwyaf o leoliadau wrthym fod plant a oedd yn absennol o'r lleoliad trwy gydol cyfnodau clo, wedi dychwelyd yn hapus a chyffrous i weld eu ffrindiau a staff.**

Dywedodd arweinwyr fod effaith y pandemig ar blant wedi amrywio'n eang.  Mewn rhai achosion, teimlai arweinwyr fod plant wedi elwa ar gael cyfnod gartref ac wedi dychwelyd yn fwy hyderus, yn ymholgar ac yn hapus i ddysgu.  Nododd fwyafrif o leoliadau effeithiau andwyol bod gartref yn ystod cyfnodau clo ar les lleiafrif o blant.

Ledled Cymru, mae gwahanol ffactorau wedi cael effaith andwyol ar les staff.  Yn ystod tymor y gwanwyn, soniodd llawer o arweinwyr am heriau dal i fyny â newidiadau i ganllawiau, gwneud newidiadau i arferion, yn ogystal â rheoli ffyrlo a materion staffio.  Yn ystod tymor yr haf, dywedodd arweinwyr wrthym fod lles staff wedi gwella, ar y cyfan.  Fodd bynnag, dywedodd athrawon ymgynghorol y blynyddoedd cynnar a sefydliadau ymbarél wrthym fod llawer o arweinwyr ac ymarferwyr yn bryderus am y pwysau ychwanegol wrth baratoi ar gyfer Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg, a'r Cwricwlwm i Gymru.



# Ailsefydlu darpariaeth

**Ni wnaeth lleiafrif o leoliadau ailagor ym mis Ionawr am amrywiaeth o resymau, yn cynnwys nifer uchel yr achosion COVID-19 yn eu hardal, ac aelodau staff yn hunanynysu neu'n profi'n bositif am y feirws.**

Mewn ychydig o achosion, roedd hyn o ganlyniad uniongyrchol i'r ffaith fod ysgolion ar gau, gan fod lleoliadau yn aml yn rhannu'r un adeilad neu wedi'u lleoli yn rhywle arall ar safle'r ysgol.  Fodd bynnag, roedd y rhan fwyaf o leoliadau wedi ailagor yn llawn erbyn ail hanner tymor y gwanwyn, gydag ychydig o lleoliadau wedi aros ar agor trwy gydol cyfnod clo'r gwanwyn.

Yn gyffredinol, dywedodd y rhan fwyaf o leoliadau fod presenoldeb plant wedi dychwelyd i'r arfer yn ystod ail hanner tymor y gwanwyn.

Mae bron pob lleoliad wedi parhau i weithredu mesurau rheoli heintiau ac amddiffynnol llym yn unol â chanllawiau cenedlaethol a lleol.  Mae mwyafrif y lleoliadau wedi ailgyflwyno offer a dodrefn yn araf yn ystod ail hanner tymor y gwanwyn.



Mae bron pob lleoliad wedi parhau i weithredu mesurau rheoli heintiau ac amddiffynnol llym yn unol â chanllawiau cenedlaethol a lleol. Mae mwyafrif y lleoliadau wedi ailgyflwyno offer a dodrefn yn araf yn ystod ail hanner tymor y gwanwyn. Fodd bynnag, mae'r sefyllfa gyffredinol yn parhau i amrywio'n eang o fewn awdurdodau lleol, ac ar eu traws, ac yn gyffredinol, ni fu ffocws cryf ar ddatblygiad addysgegol mewn lleoliadau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Mewn mwyafrif o leoliadau, yn aml, mae arweinwyr wedi defnyddio cyllid grant i fuddsoddi mewn offer i lanhau'r adeiladau a'r adnoddau yn drylwyr.

Yn y rhan fwyaf o leoliadau, mae'r ddarpariaeth 'byrbryd' yn parhau i gael ei harwain yn fwy gan oedolion, sy'n cyfyngu ar rôl y plant mewn gweini bwyd a diod. Fodd bynnag, dywed arweinwyr mewn lleiafrif o leoliadau fod plant yn dechrau cymryd mwy o gyfrifoldeb yn ystod y sesiynau hyn, er enghraifft trwy dorri eu ffrwythau eu hunain neu roi menyn ar eu tost.

Mae llawer o ymarferwyr wedi parhau i seilio gweithgareddau ar ddiddordebau a syniadau plant, ac yn defnyddio'r ardaloedd awyr agored yn fwy nag yr oeddent o'r blaen. Yn dilyn y newidiadau i ganllawiau cenedlaethol yn ystod hanner cyntaf tymor yr haf, mae ychydig o ymarferwyr wedi dechrau mynd â phlant ar ymweliadau i'r ardal leol. Fodd bynnag, ychydig iawn o leoliadau yn unig sydd wedi croesawu ymwelwyr i'r lleoliad yn ystod tymor yr haf.

Yn y rhan fwyaf o leoliadau, mae ymarferwyr wedi parhau i arsylwi a chofnodi cynnydd plant yn briodol i gynllunio'r camau nesaf yn eu dysgu a rhannu cynnydd â rhieni. Yn gynyddol, mae ymarferwyr wedi defnyddio meddalwedd a chymwysiadau cyfrifiadurol i gofnodi a rhannu gwybodaeth gyda rhieni a gofalwyr yn absenoldeb cyfarfodydd wyneb yn wyneb.

Yn gyffredinol, mae'r rhan fwyaf o arweinwyr yn falch â'r cymorth y maent wedi parhau i'w gael gan eu hawdurdodau addysg lleol. Er nad yw Athrawon Ymgynghorol y Blynyddoedd Cynnar wedi ailddechrau ymweld â lleoliadau wyneb yn wyneb mewn llawer o achosion, maent wedi ymgysylltu ag arweinwyr yn rheolaidd trwy ddefnyddio technoleg rithwir neu'r ffôn. Dywedodd Athrawon Ymgynghorol y Blynyddoedd Cynnar wrthym fod gweithio'n rhithwir wedi ei gwneud yn anodd iddynt weithiau nodi anghenion ymarferwyr, yn enwedig mewn perthynas â Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg a'r Cwricwlwm i Gymru.

Mae bron pob lleoliad sy'n gysylltiedig â sefydliad ymbarél yn dweud wrthym eu bod wedi gweld eu cymorth yn fuddiol.

Mewn lleoliadau lle mae llawer o'r plant yn siarad Cymraeg gartref, dywed arweinwyr wrthym mai ychydig o wahaniaeth, os o gwbl, sydd wedi bod i fedrau iaith plant. Mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg, lle mae ychydig iawn o blant yn siarad Cymraeg gartref, dywedodd bron pob lleoliad fod bron pob un o'r plant wedi adennill eu hyder i siarad Cymraeg, a'u bod yn gwneud cynnydd cyson yn dysgu'r iaith, o ganlyniad i ddefnyddio technegau trochi, caneuon, rhigymau ac ailadrodd brawddegau yn ystod gweithgareddau.

Trwy gydol y pandemig, mae bron pob lleoliad wedi gwella a datblygu ffyrdd o gyfathrebu â rhieni a rhanddeiliaid eraill, yn cynnwys cymwysiadau negeseua, e-bost

a thrwy gyfryngau cymdeithasol.  Mae hyn wedi helpu lleoliadau i rannu negeseuon a gwybodaeth yn fwy effeithiol.

Yn ystod y cyfnod clo yn y gwanwyn, dywedodd arweinwyr y bu gostyngiad yn nifer y plant sy’n mynychu clybiau y tu allan i’r ysgol neu ddarpariaeth gofleidiol.  Er enghraifft, nid oedd angen oriau ychwanegol ar rieni mwyach os nad oedd eu plentyn yn mynychu darpariaeth feithrin yn yr ysgol.  Cafodd hyn effaith ariannol negyddol ar leoliadau.  Ers i ysgolion ailagor, mae llawer ohonynt wedi ailddechrau eu darpariaeth gofleidiol.

# Arweinyddiaeth

**Trwy gydol y pandemig, mae arweinwyr wedi gweithio'n ddiwyd i sicrhau bod eu lleoliadau wedi aros yn ddiogel ar gyfer eu plant a'r staff. Yn gyffredinol, mae'r rhan fwyaf ohonynt yn teimlo bod y cyngor a'r arweiniad y maent wedi'i gael gan Lywodraeth Cymru, yr awdurdod lleol a sefydliadau ymbarél wedi eu galluogi i gyflawni hyn.**

Trwy gydol y pandemig, mae arweinwyr wedi gweithio'n ddiwyd i sicrhau bod eu lleoliadau wedi aros yn ddiogel ar gyfer eu plant a'r staff. Yn gyffredinol, mae'r rhan fwyaf ohonynt yn teimlo bod y cyngor a'r arweiniad y maent wedi'i gael gan Lywodraeth Cymru, yr awdurdod lleol a sefydliadau ymbarél wedi eu galluogi i gyflawni hyn. Yn ychwanegol, mae'r rhan fwyaf ohonynt wedi elwa ar gyngor amserol gan eu Hathrawon Ymgynghorol y Blynyddoedd Cynnar, yn enwedig o ran eu cefnogi i ddarparu parhad mewn dysgu yn ystod y cyfnodau clo ac ailsefydlu darpariaeth yn dilyn cau dros dro.

Mae bron pob arweinydd wedi dweud bod rheoli effaith ariannol y pandemig ar eu lleoliadau yn heriol. Mae llawer ohonynt wedi colli refeniw sylweddol o ganlyniad i niferoedd llai o blant yn mynychu a/neu fod lleoliadau wedi cau dros dro.



Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o arweinwyr wedi defnyddio ystod eang y trefniadau cyllid ychwanegol i gefnogi cynaliadwyedd eu lleoliad.  Dywedodd ychydig o arweinwyr wrthym eu bod wedi gweld cymhlethdod dyrannu arian grant yn briodol o heriol.

Hefyd, rhoddodd y costau cynyddol am Gyfarpar Diogelu Personol (PPE) dros y flwyddyn straen ar gyllid lleoliadau.  Nododd arweinwyr y bu cynnydd mawr mewn costau yn gysylltiedig â'r angen i brynu deunyddiau glanhau, PPE ac offer diogelwch arall i gynnal amgylchedd diogel ar gyfer eu plant a'r staff.

Penderfynodd y rhan fwyaf o leoliadau beidio â derbyn myfyrwyr na phrentisiaid dros y pandemig, gan fod arweinwyr yn poeni am drosglwyddo'r feirws.  O ganlyniad, nid yw llawer o fyfyrwyr wedi cael y profiad ymarferol sydd ei angen arnynt i gwblhau eu hyfforddiant.  Fel canlyniad posibl i'r niferoedd llai o ymarferwyr cymwys sydd wedi dechrau yn y gweithlu dros y flwyddyn ddiwethaf, mae arweinwyr yn awr yn ei chael yn anodd recriwtio pobl sy'n meddu ar gymwysterau a phrofiad addas.  Hefyd, dywed arweinwyr lleoliadau cyfrwng Cymraeg fod prinder ymarferwyr addas i weithio trwy gyfrwng y Gymraeg ar hyn o bryd.

Mae ymarferwyr wedi manteisio ar ystod eang o weithgareddau dysgu proffesiynol yn ystod y pandemig.  Fodd bynnag, mae'r ddarpariaeth hon wedi amrywio ar draws awdurdodau lleol, a dywed arweinwyr, er eu bod wedi cael hyfforddiant, nad ydynt wedi cael digon o amser bob tro i fyfyrio ar oblygiadau hyn, ac ymgorffori arferion newydd, yn enwedig o ran anghenion dysgu ychwanegol a'r Cwricwlwm i Gymru.

Mae'r cynnig hyfforddi rhithwir wedi golygu nad oes rhaid i staff deithio i gael hyfforddiant, gall mwy o staff gymryd rhan, ac mae wedi helpu ymarferwyr i gael hyfforddiant ar adeg sy'n gyfleus iddyn nhw.

## Canfyddiadau manwl

### Lles

#### Lles plant

Dywedodd y rhan fwyaf o leoliadau wrthym fod plant a oedd yn absennol o’r lleoliad trwy gyfnodau clo yn dychwelyd yn hapus ac yn gyffrous i weld eu ffrindiau a’r staff. At ei gilydd, ymgyfarwyddodd llawer o blant yn dda ag arferion dyddiol y lleoliad, ac addasu yn unol â gweithdrefnau hylendid newydd. Dywedodd ychydig o leoliadau eu bod wedi arsylwi plant yn copïo’r gweithdrefnau hylendid hyn, fel golchi dwylo a diheintio offer, wrth iddynt chwarae yn y gornel chwarae rôl. Dywedodd ychydig o leoliadau fod lleiafrif o blant yn bryderus i ddychwelyd i’r lleoliad a’i bod wedi cymryd mwy o amser iddynt ymgartrefu nag arfer. Rhoddodd bron pob lleoliad bwyslais cryf ar gefnogi lles plant trwy eu harferion a’u gweithgareddau dyddiol.

**Cameo – defnyddio llyfr i helpu plant i fynegi eu teimladau**

Defnyddiodd Cylch Meithrin Yr Eglwys Newydd, Caerdydd, y llyfr ‘The Colour Monster’ fel thema ganolog i’w weithgareddau pan ddychwelodd plant i’r lleoliad. Defnyddiodd ymarferwyr y stori i annog plant i siarad am unrhyw bryderon a dryswch oedd ganddyn nhw o ganlyniad i’r pandemig, a beth oedd yn digwydd yn y byd o’u cwmpas. Trwy ddefnyddio’r stori fel sbardun, fe wnaethant annog plant i fynegi eu hunain a’u teimladau gan ddefnyddio lliwiau. Teimlai ymarferwyr fod hyn yn helpu lles plant ac yn eu gwneud yn fwy ymwybodol o’u hemosiynau ac yn gallu mynegi eu teimladau yn well.

Dywedodd arweinwyr fod effaith y pandemig ar blant wedi amrywio’n helaeth o un plentyn i un arall. Mewn rhai achosion, teimlai arweinwyr fod plant wedi elwa o gael amser gartref, ac wedi dychwelyd yn fwy hyderus, yn ymholgar ac yn hapus i ddysgu. Nododd fwyafrif o leoliadau effeithiau andwyol bod gartref yn ystod cyfnodau clo ar les lleiafrif o blant. Dywedodd y lleoliadau hyn wrthym fod plant yn aml yn ei chael yn anos cymdeithasu â’u cyfoedion, rhannu adnoddau a chanolbwyntio ar dasgau. Mae plant yn fwy dibynnol ar oedolion i wneud pethau drostynt na chyn y cyfnod clo, fel gwisgo cotiau a gofyn am gymorth â mynd i’r toiled. Hefyd, dywedodd lleiafrif o leoliadau wrthym fod ymddygiad plant wedi dirywio, gyda phlant yn cael trafferth cadw at ffiniau.

Sylwodd lleiafrif o leoliadau y bu cynnydd yn nifer y plant ag anawsterau lleferydd ac iaith, gyda nifer fwy o atgyfeiriadau’n cael eu gwneud am gymorth. I ychydig o blant, mae lleoliadau’n gweld bod yr anawsterau lleferydd ac iaith yn ychwanegu at broblemau ymddygiad, yn enwedig pan fydd plant yn rhwystredig ynglŷn â pheidio â gallu cyfleu eu teimladau yn llwyddiannus.

#### Lles staff

Yn ystod ail hanner tymor y gwanwyn, dywedodd arweinwyr wrthym am eu ffocws parhaus ar gefnogi aelodau staff a’u lles. Ledled Cymru, mae gwahanol ffactorau wedi cael effaith andwyol ar les staff, er enghraifft nifer yr achosion mewn ardal leol,

amgylchiadau personol yn ymwneud â COVID-19 ac amgyffrediad staff o ba mor dda y mae'r gymuned yn glynu at reoliadau Llywodraeth Cymru.  Mewn llawer o leoliadau, mae arweinwyr yn dweud wrthym fod staff wedi bod yn bryderus i ddychwelyd i'r gwaith.  Mewn lleiafrif o leoliadau, dywedodd arweinwyr fod morâl staff yn isel yn ystod tymor y gwanwyn.  Yn unol â'n hadroddiad blaenorol, dywedodd ychydig o arweinwyr fod staff yn ei chael yn anodd cyfiawnhau pam roedd ysgolion ar gau ond bod lleoliadau yn parhau ar agor i'r holl blant.  Gweithiodd arweinwyr yn galed i gefnogi staff trwy'r cyfnod hwn, a defnyddiodd llawer ohonynt eu prosesau goruchwylio ac arfarnu i ddarparu cyfleoedd i staff drafod eu pryderon a'u hanawsterau.

**Cameo – cefnogi lles staff**

Trefnodd Little Inspirations, sy'n gweithredu sawl lleoliad yn Rhondda Cynon Taf, gyfarfodydd 'amser siarad' ar draws eu meithrinfeydd.  Rhoddodd hyn gyfle i staff siarad â'i gilydd, rhannu pryderon a rhoi cymorth i'w gilydd.  Rhoddodd arweinwyr fag lles i bob un o'r staff, a oedd yn cynnwys eitemau i'w hannog i 'gymryd egwyl', fel bisgedi, bag te a channwyll fach.  Hefyd, roedd y bag yn cynnwys rhifau buddiol a oedd yn cyfeirio staff at gymorth lles os oedd angen.

Yn ystod tymor y gwanwyn, soniodd llawer o arweinwyr am heriau dal i fyny â newidiadau i ganllawiau, gwneud newidiadau i arferion, yn ogystal â rheoli ffyrlo a materion staffio, gan gyfeirio at effaith negyddol y rhain ar eu lles.

Yn ystod tymor yr haf, dywedodd arweinwyr wrthym fod lles staff wedi gwella, ar y cyfan.  Mae arferion wedi hen ennill eu plwyf ac nid ydynt mor feichus i staff mwyach.  Mae'r cyfle i gael profion llif unffordd a'r cynnydd yn nifer y staff sy'n cael eu brechu wedi helpu lleddfu pryderon i staff hefyd.  Dywed ychydig o leoliadau fod staff wedi penderfynu peidio â defnyddio'r profion llif unffordd.

Dywedodd athrawon ymgynghorol y blynyddoedd cynnar a sefydliadau ymbarél wrthym fod llawer o arweinwyr ac ymarferwyr yn pryderu am y pwysau ychwanegol wrth baratoi ar gyfer Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg a'r Cwricwlwm i Gymru.

## Plant bregus

Dywedodd tua hanner y lleoliadau y cysylltom â nhw wrthym fod ganddynt blant bregus yn mynychu eu lleoliadau.  Trwy gydol y pandemig, maent wedi parhau i weithio gyda theuluoedd ac asiantaethau allanol fel yr ymwelydd iechyd a'r seicolegydd addysg i gynorthwyo plant.  Yn y rhan fwyaf o achosion, mae'r cymorth hwn wedi digwydd yn rhithwir, er enghraifft yn achos therapi lleferydd ac iaith.  Mewn ychydig iawn o enghreifftiau, mae asiantaethau allanol, fel seicolegwyr addysg, wedi bod yn mynychu lleoliadau i arsylwi plant.  Mae llawer o arweinwyr o'r farn nad yw'r cymorth rhithwir wedi bod mor effeithiol â'r cymorth wyneb yn wyneb a gynigir fel arfer.  Mae ychydig o arweinwyr wedi dweud nad yw rhieni bob amser yn fodlon ymgymryd â therapi lleferydd ac iaith rhithwir.  Mae hyn wedi cael effaith niweidiol ar gynnydd plant.

Bu cynnydd yn nifer y plant sy’n profi oedi o ran lleferydd ac iaith yn y mwyafrif o leoliadau. Mae llawer ohonynt wedi defnyddio offer asesu diagnostig i asesu medrau penodol plant a chynllunio’n briodol. Fodd bynnag, ar gyfer anghenion mwy cymhleth sydd angen cymorth allanol, mae lleiafrif o leoliadau wedi gweld bod yr atgyfeiriadau am gymorth ychwanegol yn cymryd yn hwy na’r arfer.

Dywedodd y rhan fwyaf o leoliadau wrthym eu bod wedi parhau i aros mewn cysylltiad agos â rhieni i gynnig cymorth a chefnogaeth ble gallant, er enghraifft trwy drefnu parseli bwyd ar gyfer teuluoedd.

**Cameo – cymorth i deuluoedd**

Ffoniodd Meithrinfa Ddydd Sparkles, Wrecsam, y rhieni nad oedd eu plant yn mynychu yn ystod y cyfnod clo unwaith yr wythnos i ‘wirio’ lles plant a rhieni. Roedd hyn yn cynnwys cynnig ystod eang o gyngor a chymorth i rieni, er enghraifft sut i gael parseli bwyd a sut i gael cyngor ar denantiaeth a dyled. Cyfeiriont deuluoedd at gymorth gan archfarchnadoedd lleol a oedd yn cyflenwi bwyd, clytiau ac eli haul yn rhad ac am ddim. Darparont becynnau gweithgareddau i blant eu cwblhau, gan ofyn i rieni gasglu’r rhain o’r lleoliad ar sail system apwyntiadau. Hefyd, cynigiodd y lleoliad brydau ‘Clwb Llwgu yn ystod y Gwyliau’ ar gyfer teuluoedd mewn angen. Gan fod y feithrinfa yn coginio prydau bwyd beth bynnag, defnyddion nhw fwyd dros ben i ddarparu ychydig o brydau bwyd bob dydd, neu baratoi cinio pecyn ar gyfer teulu, pan oedd angen.

### Diogelu

Dywedodd y rhan fwyaf o leoliadau nad ydynt wedi gweld cynnydd mewn atgyfeiriadau diogelu yn ystod y pandemig. Yn y rhan fwyaf o leoliadau lle mae achosion diogelu parhaus neu atgyfeiriadau newydd, dywedodd arweinwyr wrthym eu bod yn gweithio’n agos gyda gwasanaethau cymdeithasol o bell i gynorthwyo plant a’u teuluoedd. Fodd bynnag, dywed ychydig iawn o arweinwyr eu bod wedi’i chael yn anodd cael diweddariadau ar yr atgyfeiriadau a wnaed.

## Ailsefydlu darpariaeth

### Ailagor a phresenoldeb

Fel y cyfeiriom ni yn ein hadroddiad blaenorol ym mis Mawrth 2021, ni wnaeth lleiafrif o leoliadau ailagor ym mis Ionawr am amrywiaeth o resymau, yn cynnwys nifer uchel yr achosion COVID-19 yn eu hardal, ac am fod aelodau staff yn hunanynysu neu’n profi’n bositif am y feirws. Mewn ychydig o achosion, roedd hyn o ganlyniad uniongyrchol i ysgolion yn cau gan fod lleoliadau yn aml yn rhannu’r un adeilad neu wedi’u lleoli yn rhywle arall ar safle’r ysgol. Ailagorodd ychydig iawn o leoliadau ar ôl hanner tymor Chwefror gyda llai o gapasiti, gan yn aml ohirio’r dyddiad ar gyfer dechreuwyr newydd, yn enwedig mewn ardaloedd lle roedd cyfraddau uchel o COVID-19. Fodd bynnag, roedd y rhan fwyaf o leoliadau wedi ailagor yn llawn erbyn ail hanner tymor y gwanwyn gydag ychydig ohonynt yn aros ar agor trwy gydol y cyfnod clo yn y gwanwyn.

Yn gyffredinol, dywedodd y rhan fwyaf o leoliadau fod presenoldeb plant wedi dychwelyd i'r arfer yn ystod ail hanner tymor y gwanwyn. Mewn ychydig o leoliadau, dywedodd arweinwyr fod mwy o blant bellach yn mynychu gan fod newidiadau yn amgylchiadau personol teuluoedd wedi creu galw ychwanegol am ofal plant. Mae ychydig o leoliadau wedi addasu eu horiau gweithredu i ddiwallu anghenion eu teuluoedd yn well, sydd hefyd wedi cynyddu niferoedd y plant sy'n mynychu. Yn ychwanegol, dywedodd ychydig o leoliadau fod ganddynt restr aros o blant sy'n dymuno mynychu, a bod y gwelliannau maent wedi eu gwneud, er enghraifft i'r ardaloedd awyr agored, wedi ychwanegu at y galw am leoedd.

Mae bron pob un o'r lleoliadau wedi parhau i weithredu mesurau rheoli heintiau ac amddiffynnol llym, yn unol â chanllawiau cenedlaethol a lleol. Yn y lleoliadau hyn, ni chaniateir i rieni fynd i mewn i'r adeilad, ac fe gânt eu cyfarch wrth y drws gan staff. Mae bron pob arweinydd ac ymarferwr yn parhau i grwpio plant mewn swigod, lle bo'n briodol, yn enwedig mewn lleoliadau gofal dydd lle maent yn derbyn gofal mewn gwahanol ystafelloedd. Mewn lleoliadau llai, lle mae plant yn derbyn eu gofal a'u hawl i addysg gynnar yn yr un ystafell, mae staff a phlant yn aml yn ffurfio un swigen fawr. Mae'r defnydd o orchuddion wyneb gan staff yn parhau i amrywio, ond mae'r rhan fwyaf ohonynt yn eu gwisgo wrth symud o gwmpas y lleoliad neu wrth gyfarfod â rhieni ar ddechrau neu ddiwedd y sesiwn. Dywedodd ychydig o leoliadau fod staff yn teimlo bod gwisgo gorchuddion wyneb yn lleihau ansawdd y rhyngweithio â'r plant. Mae bron pob lleoliad yn parhau i ddefnyddio cyfundrefnau llym o ran golchi dwylo a glanhau i leihau risg trosglwyddo'r feirws. Mae hyn wedi dod yn rhan o'r drefn ddyddiol ar gyfer staff, a dywed llawer o leoliadau fod staff wedi dod yn hyfedr iawn yn sicrhau bod arwynebeddau ac ardaloedd yn cael eu glanhau cymaint ag y bo modd trwy gydol y dydd. Yn gyffredinol, mae'r rhan fwyaf o leoliadau yn parhau i weithredu rota ar gyfer defnyddio offer a deunyddiau dysgu; er enghraifft, caiff llyfrau eu rhoi mewn cwarantin am 72 awr cyn eu defnyddio eto. Yn ychwanegol, mae ymarferwyr yn paratoi eitemau fel toes chwarae a thywod ar gyfer unigolion neu grwpiau bach i leihau risg trosglwyddo COVID-19. Caiff offer awyr agored ei ddiheintio a'i sychu'n barhaus gan staff trwy gydol y dydd.

**Cameo – gwneud plant yn ymwybodol o pam mae oedolion yn defnyddio offer amddiffynnol i gadw pawb yn ddiogel**

Trwy gydol y pandemig, mae staff yn Ysgol Feithrin Tudno, Conwy, wedi defnyddio offer a argymhellir yn ddiwyd fel rhan o brotocol mesurau amddiffynnol y lleoliad. Yn ystod cyfnod paratoi lluniaeth ar gyfer amser byrbryd, gofynnodd plant i'r staff a allent wisgo'r offer hwn. Defnyddiodd y staff y cyfle hwn i helpu plant i ddeall pwysigrwydd gwisgo offer amddiffynnol, yn ogystal â chwalu unrhyw rwystrau y gallai gwisgo eitemau fel gorchuddion wyneb fod wedi eu creu. Bellach, mae staff yn dewis un plentyn bob dydd i'w helpu i baratoi'r byrbrydau a gosod y bwrdd.

Mae mwyafrif o leoliadau wedi ailgyflwyno offer a dodrefn yn araf yn ystod ail hanner tymor y gwanwyn. Yn y lleoliadau hyn, yn aml, mae arweinwyr wedi defnyddio cyllid grant i fuddsoddi mewn offer i lanhau'r adeiladau a'r adnoddau yn drylwyr, yn cynnwys glanhau clustogau yn y gornel ddarllen â stêm, yn ogystal â gwisgoedd gwisgo i fyny yn yr ardal chwarae rôl. Dywedodd arweinwyr wrthym eu bod yn teimlo bod angen iddynt ddechrau ailgyflwyno'r ardaloedd hyn pan fydd yn ddiogel gwneud hynny, gan eu bod yn bwysig ar gyfer profiad dysgu plant, a datblygiad eu medrau.

Yn y rhan fwyaf o leoliadau, mae'r ddarpariaeth 'amser byrbryd' yn parhau i gael ei harwain yn fwy gan oedolyn, sy'n cyfyngu ar rôl y plant mewn gweini bwyd a diod. Fodd bynnag, dywed arweinwyr mewn lleiafrif o leoliadau fod plant yn dechrau ailddechrau cael cyfrifoldeb yn ystod y sesiynau hyn, er enghraifft trwy dorri eu ffrwythau eu hunain neu roi menyn ar eu tost. Yn y lleoliadau hyn, mae arweinwyr o'r farn ei bod yn bwysig meithrin medrau annibynnol a chymdeithasol plant cymaint ag y bo modd yn ystod y sesiynau hyn. Mae'r sefyllfa gyffredinol yn parhau i amrywio'n eang o fewn awdurdodau lleol, ac ar eu traws.

**Gweithgareddau plant**

Mae llawer o ymarferwyr wedi parhau i seilio gweithgareddau ar ddiddordebau a syniadau'r plant, ac yn defnyddio'r ardaloedd awyr agored yn fwy nag yr oeddent o'r blaen. Yn dilyn y newidiadau i ganllawiau cenedlaethol yn ystod hanner cyntaf tymor yr haf, mae ychydig o ymarferwyr wedi dechrau mynd â phlant i ymweld â'r ardal leol, er enghraifft prynu cynhwysion o'r siop leol neu ymweld â'r coetir lleol. Fodd bynnag, ychydig iawn o leoliadau yn unig sydd wedi croesawu ymwelwyr i'r lleoliad yn ystod tymor yr haf. Mae'r rhan fwyaf o leoliadau yn credu bod y diffyg ymweliadau ac ymwelwyr wedi cael effaith sylweddol ar ansawdd eu darpariaeth a chyfoeth eu cynnig addysg gynnar.

Yn y rhan fwyaf o leoliadau, mae ymarferwyr yn parhau i gynllunio profiadau dysgu sy'n galluogi plant i dreulio mwy o amser yn yr awyr agored, er enghraifft trwy wneud defnydd da o'u hardal goedwig i addysgu plant am natur a datblygu medrau eraill. Yn ychwanegol, mae ymarferwyr mewn ychydig o leoliadau wedi mabwysiadu strategaethau ar gyfer cynllunio profiadau dysgu sydd 'yn y fan a'r lle' i raddau helaeth, ac yn ymateb yn gyflym i ddiddordebau plant. Yn y lleoliadau hyn, mae ymarferwyr yn parhau i gynllunio profiadau dysgu o amgylch themâu bob hanner tymor ond yn defnyddio digwyddiadau arbennig fel Diwrnod Gwenyn y Byd a'r hyn y gallent ddod o hyd iddo yn yr 'ardd ar gyfer trychfilod' i ysgogi diddordebau plant. Mae ychydig o leoliadau wedi ailddechrau cynnal gweithgareddau canu er bod y rhain yn aml yn cael eu cynnal y tu allan, er mwyn lleihau risgiau trosglwyddo'r feirws. Yn gyffredinol, nid yw ymarferwyr wedi cael digon o amser i fyfyrio ar eu harfer broffesiynol eu hunain, a'i datblygu, yn ystod y cyfnod hwn.

**Cameo – defnyddio'r amgylchedd lleol i hyrwyddo dysgu yn yr awyr agored**

O ganlyniad i'r gofod cyfyngedig yn yr awyr agored yn neuadd y pentref yng Nghylch Meithrin Beddgelert, Gwynedd, trefnodd yr arweinydd a'r unigolyn cofrestredig weithgareddau coetir ar gyfer y plant ar dir yr ysgol gynradd gyfagos ac yn y coetir lleol. Darparont ystod o weithgareddau awyr agored ysgogol, yn cynnwys palu yn yr ardal fwdlyd, chwythu dail, llywio ar draws llwybr bonion coed, yn ogystal ag archwilio a chwarae yn y mwd. Er mis Medi, a gyda llawer o blant newydd wedi dechrau yn y lleoliad, mae'r trefniadau newydd wedi helpu darparu gweithgareddau dysgu yn yr awyr agored gwerthfawr ar gyfer y plant mewn amgylchedd dilys.

Yn y rhan fwyaf o leoliadau, mae ymarferwyr wedi parhau i arsylwi a chofnodi cynnydd plant yn briodol i gynllunio'r camau nesaf yn eu dysgu, a rhannu cynnydd â rhieni. Yn gynyddol, mae ymarferwyr wedi defnyddio meddalwedd a chymwysiadau cyfrifiadurol i gofnodi a rhannu gwybodaeth â rhieni a gofalwyr yn absenoldeb

cyfarfodydd wyneb yn wyneb. Mae mwy a mwy o leoliadau wedi defnyddio technoleg fideo gynadledda i drefnu noson rieni rithwir i drafod cynnydd plant neu hysbysu rhieni am y lleoliad. Mae'r defnydd parhaus o gyfryngau cymdeithasol wedi sicrhau bod rhieni a gofalwyr yn ymwybodol o waith y lleoliad ac yn cael gwybodaeth bwysig.

**Cameo – defnyddio offer digidol i adrodd ar gynnydd plant**

Buddsoddodd arweinwyr ym Meithrinfa Plas Gogerddan, Ceredigion, mewn meddalwedd ddigidol i wella'r cysylltiadau â'r cartref a gwneud cadw cofnodion ac asesiadau mor dryloyw ac agored â phosibl. Mae'r ffaith fod pob aelod o staff yn defnyddio'r ap yn golygu bod rhieni a gofalwyr yn cael gwybodaeth gyfoes am les a datblygiad eu plentyn ac am beth mae wedi bod yn ei wneud trwy gydol y dydd. Hefyd, gall rhieni a gofalwyr gofnodi gwybodaeth am weithgareddau'r plentyn gartref i'w rhannu â'r staff. Mae hyn yn sicrhau trosglwyddo esmwyth rhwng y cartref a'r lleoliad yn absenoldeb cyfarfodydd wyneb yn wyneb. Yn ogystal, mae wedi cynorthwyo staff wrth gasglu gwybodaeth i gynllunio'r camau nesaf yn nysgu plant, ac yn dangos eu cynnydd hyd yma.

### Cymorth allanol

Yn gyffredinol, mae'r rhan fwyaf o arweinwyr yn falch â'r cymorth y maent wedi parhau i'w gael gan eu hawdurdodau addysg lleol. Er nad yw Athrawon Ymgynghorol y Blynyddoedd Cynnar wedi ailddechrau ymweld wyneb yn wyneb â lleoliadau mewn llawer o achosion, maent wedi ymgysylltu ag arweinwyr yn rheolaidd trwy ddefnyddio technoleg rithwir neu'r ffôn. Mae hyn yn cynnwys cyfarfodydd â grwpiau o arweinwyr lleoliadau lleol sydd wedi eu helpu i rannu syniadau a thrafod materion fel newid y canllawiau gan Lywodraeth Cymru neu'r awdurdod lleol. Fodd bynnag, dywedodd Athrawon Ymgynghorol y Blynyddoedd Cynnar wrthym fod gweithio'n rhithwir weithiau wedi ei gwneud yn anodd iddynt nodi anghenion ymarferwyr, yn enwedig mewn perthynas â Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg a'r Cwricwlwm i Gymru.

Mae bron pob lleoliad sy'n gysylltiedig â sefydliad ymbarél yn dweud wrthym eu bod wedi gweld eu cymorth yn fuddiol. Dywedant eu bod yn derbyn diweddariadau defnyddiol i ganllawiau, yn ogystal ag ystod o bolisïau ac asesiadau risg y gallant eu haddasu at eu dibenion eu hunain.

### Lleoliadau cyfrwng Cymraeg

Mewn lleoliadau lle mae llawer o'r plant yn siarad Cymraeg gartref, dywed arweinwyr wrthym mai ychydig o wahaniaeth, os o gwbl, sydd wedi bod i fedrau iaith plant. Mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg, lle mae ychydig iawn o blant yn siarad Cymraeg gartref, gwelodd ymarferwyr fod medrau siarad Cymraeg plant wedi llithro'n ôl yn ystod y cyfnod pan oeddent yn absennol o'r lleoliad. Fodd bynnag, dywedodd y rhan fwyaf ohonynt fod plant yn meddu ar ddealltwriaeth resymol o'r iaith o hyd, wedi iddynt ddychwelyd i'r lleoliad. Dywedodd bron pob un o'r lleoliadau hyn fod bron pob un o'r plant wedi adennill eu hyder i siarad Cymraeg a'u bod yn gwneud cynnydd cyson yn dysgu'r iaith, yn sgil defnyddio technegau trochi, caneuon, rhigymau ac ailadrodd brawddegau yn ystod gweithgareddau. Dywedodd ychydig o arweinwyr

wrthym eu bod yn cael anawsterau cynyddol yn recriwtio ymarferwyr sy'n meddu ar gymwysterau priodol sy'n gallu siarad Cymraeg.

### Cyfathrebu

Trwy gydol y pandemig, mae bron pob lleoliad wedi gwella a datblygu ffyrdd o gyfathrebu â rhieni a rhanddeiliaid eraill, yn cynnwys cymwysiadau negeseua, e-bost a thrwy gyfryngau cymdeithasol. Mae hyn wedi helpu lleoliadau i rannu negeseuon a gwybodaeth yn effeithiol. Er enghraifft, dywed y rhan fwyaf o leoliadau eu bod bellach yn defnyddio technoleg i gyfarfod ag athrawon ymgynghorol.

Dywed llawer o leoliadau wrthym eu bod wedi ceisio addasu eu cyfarfodydd wyneb yn wyneb gyda rhieni cystal ag y gallant o dan yr amgylchiadau. Er enghraifft, mae un lleoliad yn defnyddio ardal ganopi yn yr awyr agored i gael trafodaethau â rhieni trwy gadw pellter cymdeithasol, pan fydd angen. Fodd bynnag, dywed arweinwyr nad ydynt wedi gallu meithrin perthnasoedd â rhieni cystal ag y maent wedi gwneud yn y gorffennol, yn enwedig rhieni newydd y lleoliad. Dywed un arweinydd eu bod yn gofyn i rieni dynnu eu gorchuddion wyneb yn achlysurol wrth gasglu eu plant i sicrhau bod eu plant yn mynd adref gyda'r person cywir.

**Cameo – diwrnodau agored ar gyfer rhieni a phlant**

Roedd staff yng Nghylch Meithrin Yr Eglwys Newydd, Caerdydd, yn bryderus nad oeddent yn gallu cynnig unrhyw ddiwrnodau agored ar gyfer rhieni presennol a darpar rieni. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, creodd y lleoliad lawer o ffilmiau o'r lleoliad, ei arferion a'i brotocolau i'w rhannu â rhieni. Hefyd, fe wnaethant ffilmio gweithgareddau bob dydd a gynhaliwyd, fel canu ac amser stori. I wella'r ymweliad rhithwir a mynd i'r afael â'r diffyg ymweliad corfforol â'r lleoliad, gosododd ymarferwyr gasebos yn y parc lleol am wythnos i alluogi'r rhieni i fynychu'r 'lleoliad' gyda'u plant. Gwelodd ymarferwyr a rhieni fod hyn yn ffordd fuddiol o ddod i adnabod ei gilydd, a rhoddodd gyfle i rieni gasglu eu pecynnau cofrestru. Rhoddodd y lleoliad dedi i'r plant ar gylch allweddi yn gwisgo crys-T y lleoliad i helpu rhieni i siarad am y lleoliad gyda'u plentyn a pharatoi ar gyfer yr adeg pan fyddant yn mynychu.

### Trefniadau cofleidiol

Mae llawer o leoliadau sy'n cynnig trefniadau cofleidiol, fel clybiau brecwast a chlybiau amser cinio, wedi addasu eu darpariaeth yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru.

Yn ystod y cyfnod clo yn y gwanwyn, dywedodd arweinwyr y bu gostyngiad yn nifer y plant sy'n mynychu clybiau y tu allan i'r ysgol neu ddarpariaeth gofleidiol. Er enghraifft, nid oedd angen oriau ychwanegol ar rieni mwyach os nad oedd eu plentyn yn mynychu darpariaeth feithrin yn yr ysgol. Cafodd hyn effaith ariannol negyddol ar leoliadau.

Ers i ysgolion ailagor, mae llawer o leoliadau wedi ailddechrau eu darpariaeth gofleidiol. Mae arweinwyr wedi ychwanegu at eu hasesiadau risg i sefydlu protocolau priodol ar gyfer gollwng a chasglu plant. Er enghraifft, caiff yr holl

gerbydau eu diheintio cyn ac ar ôl eu defnyddio bob tro, mae staff yn gwisgo gorchuddion wyneb ac mae ffenestri ar agor ar gyfer awyru. Hefyd, mae'r rhan fwyaf o leoliadau yn ceisio cadw eu plant mewn grwpiau neu 'swigod' tebyg pan fyddant yn cyrraedd y lleoliadau, er bod ychydig ohonynt wedi gweld nad oes modd rheoli hyn. Mae lleiafrif o leoliadau wedi cyfyngu ar eu darpariaeth gofleidiol i un ysgol yn unig. Dywed arweinwyr fod hyn wedi cael effaith negyddol ar eu sefyllfa ariannol.

Dywed llawer o arweinwyr wrthym fod amrywiad yn y cymorth mae ysgolion yn ei ddarparu ar gyfer ymarferwyr sy'n gollwng ac yn casglu plant. Yn yr enghreifftiau gorau, mae lleoliadau ac ysgolion yn cyfathrebu'n effeithiol, ac mae ganddynt drefniadau pwrpasol i gynorthwyo â throsglwyddo disgyblion yn esmwyth a diogel, fel defnyddio ardaloedd dynodedig ar gyfer lleoliadau i ollwng a chasglu plant.

**Arweinyddiaeth**

Trwy gydol y pandemig, mae arweinwyr wedi gweithio'n ddiwyd i sicrhau bod eu lleoliadau wedi aros yn ddiogel ar gyfer eu plant a'r staff. Yn gyffredinol, mae'r rhan fwyaf ohonynt yn teimlo bod y cyngor a'r arweiniad y maent wedi'i gael gan Lywodraeth Cymru, yr awdurdod lleol a sefydliadau ymbarél wedi eu galluogi i gyflawni hyn. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn eithriadol o ddiolchgar am y cymorth a gawsant, er eu bod yn dweud bod amlder y newidiadau i'r cyngor a'r arweiniad, ynghyd â negeseuon anghyson o bryd i'w gilydd, wedi ei gwneud yn anodd iddynt ymdopi ar adegau. Mewn llawer o achosion, mae'r defnydd cynyddol o dechnoleg rithwir wedi galluogi arweinwyr i gyfathrebu'n fwy effeithiol â rhanddeiliaid, yn ogystal ag arweinwyr eraill yn eu hardal neu'u hawdurdod lleol. Gwerthfawrogodd arweinwyr gyfle i rannu eu pryderon a'u hawgrymiadau â chydweithwyr, yn enwedig pan gyflwynwyd arweiniad neu gyngor newydd, er enghraifft wrth geisio dod i wybod sut i wneud cais am grantiau ariannol neu sefydlu protocolau rheoli heintiau yn eu lleoliad.

Mae bron pob arweinydd wedi dweud bod rheoli effaith ariannol y pandemig ar eu lleoliadau yn heriol. Mae llawer ohonynt wedi colli refeniw sylweddol o ganlyniad i niferoedd llai o blant yn mynychu a/neu fod lleoliadau wedi cau dros dro. Fodd bynnag, mae llawer o arweinwyr wedi defnyddio ystod eang y trefniadau cyllid ychwanegol i gefnogi cynaliadwyedd eu lleoliad. Dywedodd bron pob un ohonynt wrthym ni fod y Cynllun Ffyrlo a grantiau amrywiol Llywodraeth Cymru y trefnwyd eu bod ar gael iddynt yn ystod y pandemig, wedi eu helpu i reoli'r pwysau ariannol a brofwyd ganddynt. Defnyddiodd llawer o arweinwyr hyblygrwydd y cyllid ffyrlo i reoli eu staffio yn unol â nifer y plant oedd yn mynychu. Hefyd, defnyddiodd arweinwyr grantiau eraill fel Grant Cyfalaf Llywodraeth Cymru, grantiau cymorth awdurdodau lleol a chyllid gan gwmnïau ac elusennau cenedlaethol, i helpu cefnogi'r lleoliad, yn ogystal â gwneud gwelliannau angenrheidiol i'r adeiladau. Dywedodd ychydig o arweinwyr wrthym eu bod wedi gweld cymhlethdod dyrannu arian grant yn briodol o heriol.

**Cameo – defnyddio cyllid grant i addasu'r adeiladau yn ystod y pandemig**

Defnyddiodd Canolfan Chwarae Owrtyn, Wrecsam, gyllid grant i ddarparu lloches awyr agored ar gyfer rhieni pan oeddent yn gollwng a chasglu eu plant. Hefyd, defnyddiont hwn fel gofod i ymarferwyr siarad â rhieni ar ddiwedd y dydd gan nad oeddent yn gallu cyfarfod â nhw dan do. Teimlai'r arweinydd fod rhyngweithio wyneb yn wyneb â rhieni yn bwysig a'u bod eisiau parhau â gweithdrefnau arferol cymaint ag y bo modd.

Dywedodd y rhan fwyaf o arweinwyr wrthym fod eu hymgyrchoedd codi arian wedi cael eu heffeithio'n wael gan y pandemig. Mae llawer ohonynt yn dibynnu ar yr incwm hwn i gynnal eu gwaith, yn enwedig lleoliadau llai sy'n darparu hawl addysg gynnar i nifer fach o blant. Fodd bynnag, mewn ychydig o leoliadau, darparodd cwmnïau ac elusennau lleol gyfraniadau ariannol i helpu cefnogi eu gwaith. Mewn llawer o achosion, prynodd arweinwyr offer awyr agored, yn cynnwys canopïau, i helpu cefnogi dysgu yn yr awyr agored a lleihau risg trosglwyddo'r feirws. Yn ychwanegol, darparodd awdurdodau lleol offer neu grantiau i helpu arweinwyr i sefydlu darpariaeth bwrpasol yn yr awyr agored a gofod ychwanegol ar gyfer dysgu.

Hefyd, rhoddodd y costau cynyddol am Gyfarpar Diogelu Personol (PPE) dros y flwyddyn straen ar gyllid lleoliadau. Nododd arweinwyr fod cynnydd mawr yng nghost deunyddiau glanhau, PPE ac offer diogelwch arall i gynnal amgylchedd diogel ar gyfer eu plant a'r staff. Yn achlysurol, cafodd arweinwyr gyllid uniongyrchol neu gynhyrchion hylendid, yn cynnwys PPE, gan eu hawdurdodau lleol i helpu â'u costau cynnal.

Dywed bron pob un o'r lleoliadau fod trefniadau pontio wedi cael eu heffeithio'n fawr yn sgil atal ymwelwyr ac ymweliadau. Roedd rhaid i arweinwyr ddefnyddio ffyrdd amgen o gyfarfod â darpar rieni a gofalwyr, yn ogystal â gwneud trefniadau amgen i blant ymgyfarwyddo â'u hysgol newydd. Yn aml, defnyddiodd arweinwyr, ymarferwyr, athrawon, rhieni a gofalwyr dechnoleg rithwir a fideos, i hwyluso hyn, er enghraifft i brofi taith rithwir o'r lleoliad neu gyfarfod yn rhithwir ag ymarferwyr neu'r athrawes feithrin yn yr ysgol. Mae mwy a mwy o leoliadau wedi defnyddio'r dechnoleg hon ar gyfer eu cyfarfod rhieni tymhorol i roi gwybod i rieni a gofalwyr am gynnydd eu plentyn.

**Cameo – trefniadau pontio**

Mae Caban Kingsland, Ynys Môn, wedi datblygu cysylltiadau pontio cryf â'r ysgol leol. Gan amlaf, mae disgyblion Blwyddyn 6 yn ymweld â'r plant bob dydd Gwener yn ystod y tymor cyn iddynt drosglwyddo, i ddarllen storïau a chymdeithasu â nhw. Gan fod cyfyngiadau COVID-19 wedi atal yr arfer sefydledig hon rhag digwydd, mae'r disgyblion yn yr ysgol wedi addasu eu harfer, ac erbyn hyn mae'n anfon fideos ohonyn nhw eu hunain yn darllen storïau. Mae hyn yn helpu'r plant yn y lleoliad i ddod yn gyfarwydd â'r ysgol a rhai o'r disgyblion sy'n ei mynychu.

Penderfynodd y rhan fwyaf o leoliadau beidio â derbyn myfyrwyr coleg na phrentisiaid yn ystod y pandemig, gan fod arweinwyr yn poeni am drosglwyddo'r feirws. O ganlyniad, nid yw llawer o fyfyrwyr wedi cael y profiad ymarferol sydd ei

angen arnynt i gwblhau eu hyfforddiant. Fodd bynnag, mae ychydig o arweinwyr wedi ystyried caniatáu i fyfyrwyr, athrawon ymgynghorol ac ymwelwyr fynd i'r lleoliad yn ystod tymor yr haf wrth i gyfradd trosglwyddo'r feirws ostwng, ac wrth i nifer y bobl sy'n cael eu brechu gynyddu. Fel canlyniad posibl i'r niferoedd llai o ymarferwyr cymwys sy'n dechrau yn y gweithlu dros y flwyddyn ddiwethaf, mae arweinwyr yn awr yn ei chael yn anodd recriwtio pobl sy'n meddu ar gymwysterau a phrofiad addas. Hefyd, dywed arweinwyr lleoliadau cyfrwng Cymraeg fod prinder ymarferwyr addas i weithio trwy gyfrwng y Gymraeg ar hyn o bryd. Gan ei bod yn ymddangos bod y galw am addysg a gofal plant yn cynyddu eto yn ystod y tymor hwn, mae'r diffyg gweithwyr hyfforddedig a chymwys addas yn mynd yn destun pryder i arweinwyr. Dywedodd lleiafrif o arweinwyr fod staff profiadol wedi penderfynu symud i swydd fwy sefydlog a/neu swydd â chyflog gwell. Cafodd ychydig iawn o arweinwyr a oedd yn astudio ar gyfer cymwysterau uwch eu hunain, fel NVQ Lefel 5, broblemau â chyflwyno tystiolaeth i'w hasesu o ganlyniad i'r tarfu a achoswyd gan y cyfnodau clo a'r arferion diwygiedig yn eu lleoliadau.

**Dysgu proffesiynol**

Mae ymarferwyr wedi manteisio ar ystod eang o weithgareddau dysgu proffesiynol yn ystod y pandemig, yn cynnwys hyfforddiant ar ddatblygu darpariaeth awyr agored, symud tuag at gwricwlwm newydd, Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg a hyfforddiant iechyd meddwl. Fodd bynnag, mae'r ddarpariaeth hon wedi amrywio ar draws awdurdodau lleol, a dywed arweinwyr, er eu bod wedi cael hyfforddiant, nad ydynt wedi cael digon o amser bob tro i fyfyrio ar ei oblygiadau, ac ymgorffori arferion newydd, yn enwedig o ran anghenion dysgu ychwanegol a'r Cwricwlwm i Gymru.

Symudodd bron yr holl gyfleoedd hyfforddi i blatfform rhithwir. Dywed bron pob un o'r lleoliadau eu bod wedi gweld yr hyfforddiant rhithwir yn fwy hygyrch ac yr hoffent weld cynnig mwy cytbwys o hyfforddiant rhithwir ac wyneb yn wyneb yn y dyfodol. Mae'r cynnig hyfforddiant rhithwir wedi golygu nad oes rhaid i staff deithio i gael hyfforddiant, gall mwy o staff gymryd rhan, ac mae wedi helpu ymarferwyr i gael hyfforddiant ar adeg sy'n gyfleus iddyn nhw.